Walk Wheel Cycle Trust

CARDIFF
CAERDYDD

Caerdydd

# Mynegai Cerdded a Beicio 2025





Rhagair

# Ein gweledigaeth ar gyfer cerdded, olwyno a beicio



**Y Cynghorydd Dan De'Ath**
Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Cyngor Caerdydd

## Mae Caerdydd yn ddinas ar symud. Bob dydd, mae mwy o bobl yn dewis cerdded, olwyno a beicio, ac mae ein strydoedd yn dechrau adlewyrchu a chefnogi'r dewisiadau hynny.

Mae mannau cyhoeddus yn cael eu dychmygu o'r newydd ar gyfer pobl, mae cysylltiadau cymunedol yn tyfu, ac mae buddion teithio llesol – aer glanach, strydoedd diogelach, bywydau iachach – yn cael eu teimlo ledled y ddinas.

Ond mae'r mudiad hwn yn ymwneud â mwy na seilwaith. Mae'n ymwneud ag adeiladu dinas sy'n gweithio i bawb, lle gall trigolion o bob oed, gallu a chefndir symud yn rhydd ac yn ddiogel, a lle cefnogir arferion iach gydol oes. Mae'n ymwneud â mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y gall traffig, goruchafiaeth ceir, a llygredd eu dwysáu, o ansawdd aer gwaeth mewn cymunedau difreintiedig i strydoedd sy'n eithrio pobl anabl, trigolion hŷn, a phlant. Nid rhai lleol yn unig yw'r anghydraddoldebau hyn, maent yn rhan o argyfwng hinsawdd ehangach sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd â'r lleiaf. Drwy flaenoriaethu cerdded, olwyno a beicio, rydym nid yn unig yn lleihau allyriadau ac yn gwella iechyd y cyhoedd, rydym yn adennill lle, yn agor cyfleoedd, ac yn helpu i adeiladu Caerdydd decach a chryfach. Mae hyn yn ymwneud â grymuso cymunedau i lunio'r lleoedd maen nhw'n byw ynddynt, a sicrhau y gall pawb, waeth beth fo'u hincwm, eu hunaniaeth neu eu gallu, elwa o ddinas lanach, ddiogelach a mwy cynaliadwy.

Canlyniad uchelgais a chydweithio a rennir yw'r cynnydd a welwn heddiw. Mae timau'r cyngor, ysgolion, sefydliadau lleol, a thrigolion oll wedi chwarae rhan yn ail-lunio ein strydoedd i flaenoriaethu pobl. Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar yr ymdrech ar y cyd honno, gan gynnig cipolwg ar siwrne cerdded, olwyno a beicio Caerdydd, gyda lleisiau a dewisiadau teithio trigolion wrth ei wraidd. Mae'n ein hatgoffa o'r hyn sy'n bosibl pan fydd cymunedau, partneriaid a llunwyr penderfyniadau yn gweithio gyda'i gilydd.

## Cynnwys


Penawdau 4
Cerdded ac olwyno 6
Beicio 8
Buddion cerdded ac olwyno 10
Buddion beicio 12
Atebion cerdded ac olwyno 14
Atebion beicio 16
Atebion cymdogaeth 18
Datblygu'r ddinas 20
Edrych ymlaen 22




## Mynegai Cerdded a Beicio

Y Mynegai Cerdded a Beicio yw'r asesiad mwyaf o gerdded, olwyno a beicio yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Fe'i cyflwynir gan Walk Wheel Cycle Trust (Sustrans gynt) mewn cydweithrediad â 22 o bartneriaid rhanbarthol a lleol. Mae pob ardal yn adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at wneud cerdded, olwyno a beicio yn ffordd fwy deniadol ac arferol o deithio.

Mae'r Mynegai Cerdded a Beicio yn adrodd bob dwy flynedd. Dyma'r chweched adroddiad o Gaerdydd, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd. Daw'r data yn yr adroddiad hwn o 2025 ac mae'n cynnwys data cerdded, olwyno a beicio lleol, modelu, ac arolwg annibynnol, cynrychioliadol o ddemograffig o 1,248 o drigolion 16 oed neu hŷn. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mawrth a Mehefin 2025. Cynhaliwyd yr arolwg gan y sefydliad ymchwil cymdeithasol NatCen, ac mae'n gynrychioliadol o'r holl drigolion, nid dim ond y rhai sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio.

Ar draws yr adroddiad hwn rydym wedi cynnwys cymariaethau â data 2023 pan fo data ar gael.

Ein diolch i bobl Caerdydd a gymerodd ran yn yr arolwg ac a rannodd eu straeon gyda ni.

Mae rhagor o fanylion am yr holl adroddiadau ac offeryn data rhyngweithiol i archwilio'r data yn fanylach ar gael yma **www.walkwheelcycletrust.org.uk/walking-cycling-index**




## Diffinio olwyno

Efallai na fydd rhai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu sgwter symudedd yn uniaethu â'r term cerdded ac efallai y bydd yn well ganddynt ddefnyddio'r term olwyno. Rydym yn defnyddio'r termau cerdded ac olwyno gyda'i gilydd i sicrhau ein bod mor gynhwysol â phosibl.

# Penawdau

# Caerdydd




**Poblogaeth[i]**
**383,919**


**316,918 o oedolion**
**67,001 o blant**

## Amlder gwahanol ddulliau teithio

Cerdded ac olwyno yw'r dull teithio mwyaf cyffredin ymhlith trigolion Caerdydd. Ers 2023, mae'n ymddangos bod cerdded ac olwyno ar gynnydd.

i. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 yr ONS. Dyma'r diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Caerdydd

### Trigolion sy'n teithio gan ddefnyddio'r dulliau canlynol bum niwrnod yr wythnos neu fwy yn y ddinas




ii. Teithio fel gyrrwr neu deithiwr mewn car, fan neu feic modur.

## Nid yw cyfranogiad mewn cerdded, olwyno a beicio yn gyfartal

Mae dewisiadau teithio trigolion a'u canfyddiadau o gerdded, olwyno a beicio weithiau'n amrywio'n fawr rhwng gwahanol grwpiau.

**54%** o drigolion yn cerdded neu'n olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos

### Cyfran y trigolion sy'n cerdded neu'n olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos[iii]

**46%** o C2

**53%** o AB

**15%** o drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos

### Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos[iv]

**9%** o fenywod

**22%** o ddynion

## Nid yw'r holl drigolion yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt yn eu cymdogaeth

### Cyfran y trigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel cerdded neu olwyno yn eu hardal leol

**66%** o bobl anabl

**77%** o bobl nad ydynt yn anabl

### Cyfran y trigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel beicio yn eu hardal leol

**34%** o C2

**48%** o AB

### Cyfran y trigolion sy'n teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth

**67%** o bobl 16-25 oed

**81%** o bobl 66+ oed

iii. Pobl broffesiynol a rheolaethol yw grwpiau economaidd-gymdeithasol AB, a galwedigaethau llaw medrus yw grŵp C2. Gweler tudalen 6 am ddiffiniadau llawn.
iv. Gweler y troednodyn ar dudalen 6.

## Mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn cerdded, olwyno a beicio

Yn seiliedig ar fodelu data'r arolwg, bob blwyddyn, mae cerdded, olwyno a beicio yn:

atal
**766**
**o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol**

creu
**£317.8 miliwn**
**mewn budd economaidd i unigolion a'r ddinas**

arbed
**18,000 tunnell**
**o allyriadau nwyon tŷ gwydr**

Mae cerdded, olwyno a beicio yn lleihau tagfeydd drwy dynnu hyd at 100,000 o geir oddi ar y ffyrdd bob dydd.

## Mae trigolion eisiau cerdded, olwyno a beicio mwy a gyrru llai

**Y ganran o drigolion a hoffai ddefnyddio mwy neu lai ar wahanol fathau o drafnidiaeth yn y dyfodol:**

Mae 27% o drigolion eisiau gyrru llai. Mae 45% o drigolion yn cytuno eu bod yn aml yn defnyddio car oherwydd nad oes opsiynau trafnidiaeth eraill ar gael.

**Cerdded neu olwyno**
**50%** mwy
**3%** llai

**Beicio**
**47%** mwy
**2%** llai

**Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus**
**38%** mwy
**11%** llai

**Gyrru**
**16%** mwy
**27%** llai

## Caiff beicio ei ystyried yn llai diogel na mathau eraill o drafnidiaeth

**Canran y trigolion sy'n credu bod eu hardal leol yn lle diogel i:**

**74%** cerdded neu olwyno
**42%** beicio
**77%** defnyddio trafnidiaeth gyhoeddust
**82%** gyrru

## Mae trigolion yn cefnogi cymdogaethau mwy cysylltiedig

Mae 54% o drigolion yn cefnogi symud buddsoddiad oddi wrth gynlluniau adeiladu ffyrdd i ariannu cerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae 20% yn gwrthwynebu symudiad o'r fath.

**71%** yn cefnogi
**11%** yn gwrthwynebu
atal cerbydau rhag parcio ar y palmant

**78%** yn cefnogi
**9%** yn gwrthwynebu
gwella a chynyddu llwybrau cerdded, olwyno a beicio oddi ar y ffordd

**74%** yn cefnogi
**6%** yn gwrthwynebu
gwella mynediad i'r rhai sy'n cerdded, olwyno a beicio i arosfannau bysiau a gorsafoedd coetsis neu drenau

**67%** yn cefnogi
**15%** yn gwrthwynebu
lleihau terfynau cyflymder, gwella mannau croesi a chyflwyno llwybrau beicio wedi'u gwarchod mewn cymdogaethau ysgolion

**50%** yn cefnogi
**26%** yn gwrthwynebu
cau strydoedd preswyl y tu allan i ysgolion i geir yn ystod amseroedd danfon a chasglu

**76%** yn cefnogi
**10%** yn gwrthwynebu
cael siopau, ysgolion, mannau gwyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn taith gerdded neu olwyno fer i'w cartref[v]

v. Yn aml, gelwir mannau lleol gyda gwasanaethau ac amwynderau yn agos i'ch cartref yn gymdogaethau 20 munud.

Cerdded ac olwyno

# Cyfranogiad, diogelwch a boddhad




## Cyfranogiad cerdded ac olwyno

Yn gyffredinol yng Nghaerdydd mae nifer y trigolion sy'n cerdded ac yn olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos wedi cynyddu ers 2023.

Mae'n galonogol fod bron i dri chwarter y trigolion yn credu ei bod hi'n ddiogel cerdded neu olwyno yn eu hardal leol.

**93%** o'r holl drigolion yn cerdded neu'n olwyno

94% yn 2023

**54%** o'r holl drigolion yn cerdded neu'n olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos

49% yn 2023

### Cyfran y trigolion sy'n cerdded neu'n olwyno o leiaf bum niwrnod yr wythnos

#### Rhyw a rhywioldeb[i]

**52%** o fenywod

47% yn 2023

**57%** o ddynion

51% yn 2023

**56%** o bobl LHDTC+

63% yn 2023

**54%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+

48% yn 2023

#### Ethnigrwydd

**53%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig

47% yn 2023

**54%** o bobl wyn

49% yn 2023

#### Oedran

**61%** o bobl 16-25 oed

59% yn 2023

**54%** o bobl 26–35 oed

54% yn 2023

**57%** o bobl 36–45 oed

48% yn 2023

**52%** o bobl 46-55 oed

45% yn 2023

**56%** o bobl 56-65 oed

45% yn 2023

**42%** o bobl 66+ oed

40% yn 2023

#### Anabledd

**47%** o bobl anabl

36% yn 2023

**57%** o bobl nad ydynt yn anabl

54% yn 2023

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol[ii]

**53%** o AB

52% yn 2023

**61%** o C1

54% yn 2023

**46%** o C2

40% yn 2023

**47%** o DE

37% yn 2023

i. Roedd maint y sampl ar gyfer ymatebwyr a nododd eu rhyw 'mewn ffordd arall' yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol ac ni chaiff ei ddangos.
ii. Mae grŵp economaidd-gymdeithasol yn ddosbarthiad a gynhelir gan y Market Research Society sy'n seiliedig ar alwedigaeth. Grwpiau A a B yw pobl broffesiynol a rheolaethol. Grŵp C1 yw goruchwylio/clerigol a myfyrwyr. Gwaith llaw medrus yw Grŵp C2. Galwedigaethau gwaith llaw lled-fedrus a di-grefft, pobl sy'n cadw tŷ, a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth yw grwpiau D ac E.

## Diogelwch a boddhad wrth gerdded ac olwyno

**74%**
o'r holl drigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel cerdded neu olwyno yn eu hardal leol

61% yn 2023

**50%**
o'r holl drigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel i blant gerdded neu olwyno yn eu hardal leol

47% yn 2023

**75%**
o'r holl drigolion sy'n credu bod eu hardal leol yn gyffredinol yn lle da i gerdded neu olwyno

72% yn 2023

### Cyfran y trigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel cerdded neu olwyno yn eu hardal leol

#### Rhyw a rhywioldeb

**74%** o fenywod
60% yn 2023

**75%** o ddynion
63% yn 2023

**72%** o bobl LHDTC+
60% yn 2023

**76%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+
63% yn 2023

#### Ethnigrwydd

**70%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
72% yn 2023

**75%** o bobl wyn
59% yn 2023

#### Oedran

**70%** o bobl 16-25 oed
69% yn 2023

**80%** o bobl 26-35 oed
60% yn 2023

**71%** o bobl 36-45 oed
62% yn 2023

**71%** o bobl 46-55 oed
56% yn 2023

**80%** o bobl 56-65 oed
55% yn 2023

**75%** o bobl 66+ oed
64% yn 2023

#### Anabledd

**66%** o bobl anabl
53% yn 2023

**77%** o bobl nad ydynt yn anabl
65% yn 2023

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**81%** o AB
61% yn 2023

**70%** o C1
66% yn 2023

**62%** o C2
69% yn 2023

**68%** o DE
53% yn 2023



### Jenny Allen

Fy mhrofiad i yw bod cerdded, yn ogystal â bod yn opsiwn sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ar gyfer mynd o A i B, yn rhoi'r lle i mi feddwl, rhywbeth sy'n anodd ei gael ynghanol bywyd beunyddiol.

Rwy'n ceisio gwneud yr ymdrech i gerdded bob dydd yn y gaeaf, os gallaf, ac rwyf bob amser yn falch o faint yn well rwy'n teimlo ar ôl mynd am dro, hyd yn oed os yw hi'n bwrw glaw.

Mae cerdded hefyd yn rhoi cyfle i mi weld beth sy'n digwydd yn fy nghymdogaeth a thu hwnt – y da a'r drwg – ac i gysylltu â phobl a natur.



Beicio

# Cyfranogiad, diogelwch a boddhad

## Cyfranogiad beicio

Mae potensial mawr ar gyfer beicio yng Nghaerdydd, gyda hanner y trigolion yn credu bod eu hardal leol yn gyffredinol yn lle da i feicio. Ar hyn o bryd mae 15% o drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos ac mae 42% yn credu ei bod hi'n ddiogel beicio yn eu hardal leol.

Diogelwch, gan gynnwys diogelwch ffyrdd a diogelwch personol, yw'r rhwystr unigol mwyaf i feicio.[i]

**36%**
o'r holl drigolion yn beicio
43% yn 2023

**15%**
o'r holl drigolion yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos
19% yn 2023

### Cyfran y trigolion sy'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos

#### Rhyw a rhywioldeb

**9%** o fenywod
**10%** yn 2023

**22%** o ddynion
**29%** yn 2023

**10%** o bobl LHDTC+
**26%** yn 2023

**17%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+
**19%** yn 2023

#### Ethnigrwydd

**9%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
**23%** yn 2023

**17%** o bobl wyn
**19%** yn 2023

#### Oedran

**12%** o bobl 16-25 oed
**24%** yn 2023

**19%** o bobl 26-35 oed
**20%** yn 2023

**18%** o bobl 36-45 oed
**20%** yn 2023

**18%** o bobl 46-55 oed
**25%** yn 2023

**19%** o bobl 56-65 oed
**18%** yn 2023

**8%** o bobl 66+ oed
**8%** yn 2023

#### Anabledd

**9%** o bobl anabl
**16%** yn 2023

**18%** o bobl nad ydynt yn anabl
**21%** yn 2023

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**20%** o AB
**23%** yn 2023

**14%** o C1
**20%** yn 2023

**8%** o C2
**13%** yn 2023

**8%** o DE
**11%** yn 2023

i. Gweler adroddiad Bywyd Beicio 2019 Caerdydd.

## Diogelwch a boddhad beicio

**42%**
o'r holl drigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel beicio yn eu hardal leol
41% yn 2023

**30%**
o'r holl drigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel i blant feicio yn eu hardal leol
31% yn 2023

**51%**
o'r holl drigolion sy'n credu bod eu hardal leol yn gyffredinol yn lle da i feicio
47% yn 2023

### Cyfran y trigolion sy'n credu ei bod hi'n ddiogel beicio yn eu hardal leol

#### Rhyw a rhywioldeb

**40%** o fenywod
38% yn 2023

**45%** o ddynion
43% yn 2023

**34%** o bobl LHDTC+
47% yn 2023

**46%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+
41% yn 2023

#### Ethnigrwydd

**41%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
59% yn 2023

**42%** o bobl wyn
36% yn 2023

#### Oedran

**36%** o bobl 16-25 oed
60% yn 2023

**45%** o bobl 26-35 oed
37% yn 2023

**44%** o bobl 36-45 oed
39% yn 2023

**49%** o bobl 46-55 oed
32% yn 2023

**49%** o bobl 56-65 oed
31% yn 2023

**38%** o bobl 66+ oed
36% yn 2023

#### Anabledd

**34%** o bobl anabl
34% yn 2023

**45%** o bobl nad ydynt yn anabl
43% yn 2023

#### Grŵp economaidd-gymdeithasol

**48%** o AB
39% yn 2023

**40%** o C1
40% yn 2023

**34%** o C2
46% yn 2023

**36%** o DE
45% yn 2023




## Caroline Richards

Dw i'n ffan mawr o feicio a bron bob amser yn dewis fy meic dros ein car wrth deithio o gwmpas Caerdydd. Mae fy ngweithdai wythnosol yn mynd â mi o fy nghartref ym Maendy i Dreganna, Glanyrafon neu'r Rhath.

Dw i'n ychwanegu panieri yn ôl yr angen i gario'r hyn sydd ei angen arnaf ac yn defnyddio Pont Blackweir i alluogi'r llwybr mwyaf gwyrdd i Dreganna.

Mae'r lôn feicio a'r gerddi glaw[ii] ar hyd Heol Parc Ninian wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm teimlad o ddiogelwch a lles. Mae beicio wrth ymyl cerddwyr, gyda dail y gerddi glaw yn creu amgylchedd dymunol, pellter a diogelwch rhag cerbydau, yn gysur.

ii. Mae gardd law, a elwir weithiau'n gynllun draenio trefol cynaliadwy, yn ddull o leihau'r risg o lifogydd drwy blannu a chael gwyrddni ar hyd strydoedd.



**Buddion cerdded ac olwyno**


# Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn cerdded neu'n olwyno

## Gyda'i gilydd, mae trigolion Caerdydd yn cerdded neu'n olwyno o amgylch y byd 17 gwaith bob dydd

Mae cerdded ac olwyno yn gwella iechyd ac ansawdd aer, yn arbed arian i'r GIG, ac yn lleihau tagfeydd.


**Teithiau cerdded ac olwyno blynyddol yn ôl pwrpas**

### **143.5 miliwn o deithiau yn 2025** sy'n gyfanswm o **152.9 miliwn o filltiroedd**




Pellter cyfartalog taith gerdded neu olwyno: 1.1 filltir

### **134.8 miliwn o deithiau yn 2023** sy'n gyfanswm o **141.2 miliwn o filltiroedd**




Pellter cyfartalog taith gerdded neu olwyno: 1 filltir

## Mae cerdded ac olwyno o fudd i drigolion a chymdeithas

Rydym yn modelu costau a buddion teithiau cerdded ac olwyno, gan gynnwys y rhai sy'n disodli teithiau y gellid bod wedi'u gyrru, gan ddefnyddio ein model Budd Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys amser teithio, costau rhedeg cerbydau, buddion iechyd, ansawdd aer a threthiant.

Cyfanswm y budd economaidd blynyddol o bob taith gerdded ac olwyno yng Nghaerdydd yw

**£251.9 miliwn**

£183.6 miliwn yn 2023

Gwnaed llawer o'r teithiau hyn gan bobl oedd â mynediad at gar. Ar gyfer y rhain (ac eithrio teithiau at ddibenion mwynhad neu ffitrwydd) mae ein model yn cymharu costau a buddion cerdded ac olwyno â chostau a buddion gyrru.

Ar gyfer y teithiau hyn, arbedir **86c** am bob milltir a gaiff ei cherddded neu olwyno yn lle gyrru. Dros flwyddyn mae hyn yn gyfanswm o **£34.7 miliwn** mewn budd economaidd i drigolion a chymdeithas o **40.4 miliwn o filltiroedd** wedi'u cerdded neu olwyno gan y rhai a allai fod wedi defnyddio car.




## Mae cerdded ac olwyno yn datgloi buddion iechyd i bawb

Mae cerdded yn y ddinas yn atal 600 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn.

566 yn 2023

### Achosion wedi'u hatal




I'r GIG, mae hyn yn arbed

**£7.6 miliwn y flwyddyn**

£7.1 miliwn yn 2023

Sy'n cyfateb i gost

**170,000 o apwyntiadau meddyg teulu**

170,000 yn 2023

Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar gymhwyso data'r ddinas i offeryn MOVES Sport England, sy'n dangos yr enillion ar fuddsoddiad i iechyd gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron a chanser y colon a'r rhefr.

Buddion gweithgaredd corfforol cerdded

**atal 181 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn**

172 yn 2023

pennir gwerth i hyn o

**£743 miliwn**

£623 miliwn yn 2023

Yn seiliedig ar offeryn Health Economic Assessment Tool (HEAT) yr WHO/Ewrop, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd cerdded trwy amcangyfrif gwerth marwolaethau is sy'n deillio o symiau penodol o gerdded.
Mae teithiau mewn cadair olwyn a sgwteri symudedd wedi'u modelu fel teithiau cerdded at ddibenion modelau MOVES a HEAT.

Mae pobl sy'n cerdded ac yn olwyno yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan arbed:

**29,000 kg o $NO_x$**

(Ocsid nitrig a nitrogen deuocsid)

26,000 kg yn 2023

a

**2,400 kg o ronynnau**

($PM_{10}$, sy'n cynnwys $PM_{2.5}$) yn flynyddol.

2,100 kg yn 2023

Mae **44%** o drigolion yn cytuno bod yr awyr yn lân yn eu hardal leol

**42%** yn 2023

## Mae cerdded ac olwyno yn helpu i liniaru'r argyfwng hinsawdd

Drwy gerdded neu olwyno yn lle gyrru, mae trigolion yn arbed

**11,000 tunnell**

o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol.

9,600 tunnell in 2023

Mae hyn yn cyfateb i ôl troed carbon

**22,000 o bobl yn hedfan**

o Gaerdydd i Tenerife.

Yn 2023 roedd trafnidiaeth ddomestig yn cyfrif am **16.6%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau'r rhain yw defnyddio petrol a diesel mewn trafnidiaeth ffyrdd.

StatsCymru, Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl blwyddyn.

## Mae cerdded ac olwyno yn cadw'r ddinas yn symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffordd o'i gymharu â gyrru.[i] Mae hyn yn helpu i gadw'r ddinas yn symud i holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

**89,000 o deithiau dwyffordd**

sy'n cael eu cerdded a'u holwyno bob dydd gan drigolion a allai fod wedi defnyddio car.

77,000 yn 2023

Pe bai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig, byddai'n ymestyn

**266 milltir**

sy'n cyfateb i'r pellter o Gaerdydd i Efrog.

231 milltir yn 2023

i. Litman, 2023. Gwerthuso Effeithiau Defnydd Tir Trafnidiaeth. Yn seiliedig ar Eric Bruun a Vuchic, 1995. Y Cysyniad Amser-Ardal.



Buddion beicio


# Pam mae pawb ar eu hennill pan fo mwy o bobl yn beicio

## Gyda'i gilydd, mae trigolion Caerdydd yn beicio o amgylch y byd 6 gwaith bob dydd

Gall beicio fod yn gyfleus ar gyfer llawer o deithiau lleol, yn enwedig mewn dinasoedd a threfi. Mae'n rhoi dewis trafnidiaeth i bobl a mynediad at addysg, swyddi a chymuned.


**Teithiau beicio blynyddol yn ôl pwrpas**

**15.4 miliwn o deithiau yn 2025** sy'n gyfanswm o **54.7 miliwn o filltiroedd**




Pellter cyfartalog taith feicio: 3.5 milltir

**19.7 miliwn o deithiau yn 2023** sy'n gyfanswm o **67.9 miliwn o filltiroedd**




Pellter cyfartalog taith feicio: 3.4 milltir

## Mae beicio o fudd i drigolion a chymdeithas

Rydym yn modelu costau a buddion teithiau beicio, gan gynnwys y rhai sy'n disodli teithiau y gellid bod wedi'u gyrru, gan ddefnyddio ein model Budd Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys amser teithio, costau rhedeg cerbydau, buddion iechyd, ansawdd aer a threthiant.


Cyfanswm y budd economaidd blynyddol o bob taith feicio yng Nghaerdydd yw

**£65.9 miliwn**

£69.8 miliwn yn 2023

Gwnaed llawer o'r teithiau hyn gan bobl oedd â mynediad at gar. Ar gyfer y rhain (ac eithrio teithiau at ddibenion hamddena) mae ein model yn cymharu costau a buddion beicio â chostau a buddion gyrru.

Ar gyfer y teithiau hyn, arbedir **£1.57** am bob milltir a gaiff ei beicio yn lle gyrru. Dros flwyddyn mae hyn yn gyfanswm o **£40.4 miliwn** mewn budd economaidd i drigolion a chymdeithas o **25.8 miliwn o filltiroedd** wedi'u beicio gan y rhai a allai fod wedi defnyddio car.




Mae amcangyfrifon model 2023 yn yr adroddiad hwn ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn 2023, oherwydd eu bod wedi'u hailgyfrifo i gynnwys teithiau beicio fel rhan o'r gwaith. Gweler yr adroddiad methodoleg am fanylion.

## Mae beicio yn datgloi buddion iechyd i bawb

Mae beicio yn y ddinas yn atal 166 o gyflyrau iechyd hirdymor difrifol bob blwyddyn.

193 yn 2023

### Achosion wedi'u hatal




I'r GIG, mae hyn yn arbed

**£2.2 miliwn y flwyddyn**

£2.6 miliwn yn 2023

Sy'n cyfateb i gost

**49,000 o apwyntiadau meddyg teulu**

63,000 yn 2023

Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar gymhwyso data'r ddinas i offeryn MOVES Sport England, sy'n dangos yr enillion ar fuddsoddiad i iechyd gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys diabetes math 2, strôc, canser y fron a chanser y colon a'r rhefr.

Mae buddion gweithgaredd corfforol beicio

**yn atal 21 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn**

26 yn 2023

pennir gwerth i hyn o

**£85.4 miliwn**

£94.4 miliwn yn 2023

Yn seiliedig ar offeryn Health Economic Assessment Tool (HEAT) yr WHO/Ewrop, sy'n galluogi asesiad economaidd o fuddion iechyd beicio trwy amcangyfrif gwerth y lefel is o farwolaethau sy'n deillio o symiau penodol o feicio.

Mae pobl sy'n beicio yn lle gyrru yn gwella ansawdd aer, gan arbed:

**12,000 kg o $NO_x$**

(Ocsid nitrig a nitrogen deuocsid)

17,000 kg yn 2023

a

**1,200 kg o ronynnau**

($PM_{10}$, sy'n cynnwys $PM_{2.5}$) yn flynyddol.

1,500 kg yn 2023

Mae **44%** o drigolion yn cytuno bod yr awyr yn lân yn eu hardal leol

**42%** yn 2023

## Mae beicio yn helpu i liniaru'r argyfwng hinsawdd

Drwy feicio yn lle gyrru, mae trigolion yn arbed

**6,900 tunnell**

o allyriadau nwyon tŷ gwydr (carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd) yn flynyddol.

8,500 tunnell yn 2023

Mae hyn yn cyfateb i ôl troed carbon

**14,000 o bobl yn hedfan**

o Gaerdydd i Tenerife.

Yn 2023 roedd trafnidiaeth ddomestig yn cyfrif am **16.6%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, a phrif ffynonellau'r rhain yw defnyddio petrol a diesel mewn trafnidiaeth ffyrdd.

StatsCymru, Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl blwyddyn.

## Mae beicio yn cadw'r ddinas ar symud

Mae astudiaethau'n dangos bod cerdded neu feicio yn rhyddhau lle ar y ffordd o'i gymharu â gyrru.[i] Mae hyn yn helpu i gadw'r ddinas yn symud i holl ddefnyddwyr y ffyrdd.

**14,000 o deithiau dwyffordd**

sy'n cael eu beicio bob dydd gan drigolion a allai fod wedi defnyddio car.

17,000 yn 2023

Pe bai'r ceir hyn i gyd mewn tagfa draffig, byddai'n ymestyn

**42 milltir**

sy'n cyfateb i'r pellter o Gaerdydd i'r Fenni.

52 milltir yn 2023

i. Litman, 2023. Gwerthuso Effeithiau Defnydd Tir Trafnidiaeth. Yn seiliedig ar Eric Bruun a Vuchic, 1995. Y Cysyniad Amser-Ardal.




**Atebion cerdded ac olwyno**

# Beth fyddai'n helpu i wneud cerdded ac olwyno yn haws?

## Dylai cartrefi newydd a chymunedau presennol gael gwasanaethau ac amwynderau o fewn pellter cerdded ac olwyno

Mae rhoi cerdded ac olwyno wrth galon cymunedau newydd a chymunedau presennol yn rhoi mwy o ddewis trafnidiaeth i bobl, gan leihau dibyniaeth ar geir.

**53%**
yn cytuno y gallant gyrraedd llawer o leoedd y mae angen iddynt ymweld â nhw yn hawdd heb orfod gyrru

**50%** yn 2023

**59%**
yn cefnogi atal datblygiadau tai newydd mewn ardaloedd lle mai gyrru yw'r unig opsiwn ymarferol i ymweld â gwasanaethau lleol, fel siopau a meddygfeydd

**55%** yn 2023

Gall datblygiadau newydd a chymunedau presennol gefnogi cerdded ac olwyno drwy sicrhau bod llawer o'r pethau sydd eu hangen ar bobl i'w cael yn agos at ble mae pobl yn byw.

**Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld mwy o gyfleusterau a gwasanaethau lleol yn ddefnyddiol i'w helpu i gerdded neu olwyno mwy?**

**83%**
mwy o siopau a gwasanaethau bob dydd, fel banciau a swyddfeydd post, yn agos at eu cartref

**80%** yn 2023

**79%**
mwy o wasanaethau'r llywodraeth, fel meddygfeydd ac ysgolion, yn agos at eu cartref

**74%** yn 2023

**83%**
mwy o barciau neu fannau gwyrdd yn agos at eu cartref

**80%** yn 2023

**81%**
mwy o bethau i'w gweld a'u gwneud yn agos at eu cartref, fel caffis neu leoliadau adloniant

**79%** yn 2023

## Mae trigolion eisiau i gerdded ac olwyno gyd-fynd yn well â bysiau



Er y dylai cerdded ac olwyno fod yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer teithiau byr, dylid ei integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach hefyd.

Cerdded a defnyddio bws yw'r math mwyaf cyffredin o deithio aml-foddol ledled y Deyrnas Unedig. Os ydym am gynyddu cerdded ac olwyno a theithiau bws, dywedodd trigolion wrthym fod angen gwelliannau ymarferol arnynt i integreiddio'r dulliau trafnidiaeth hyn yn well.

**Pa ganran o drigolion fyddai'n gweld y newidiadau hyn yn ddefnyddiol i'w helpu i wneud teithiau sy'n cynnwys cerdded neu olwyno ynghyd â defnyddio'r bws yn amlach?**

**78%**
rhagor o wybodaeth i'w helpu i gynllunio a mynd ar daith (megis apiau, mapiau, arwyddion neu staff trafnidiaeth gyhoeddus)

**70%**
llwybrau cerdded ac olwyno mwy uniongyrchol o ystadau tai i arosfannau bysiau

**68%**
llwybrau cerdded ac olwyno hygyrch i ac o arosfannau bysiau

**73%**
gwell diogelwch wrth gerdded neu olwyno i ac o'r arhosfan bws

**75%**
cyfleusterau croesi gwell ar gyfer cerdded ac olwyno gerllaw arosfannau bysiau

**86%**
arosfannau bysiau gwell (megis rhai hygyrch, wedi'u goleuo a'u cynnal a'u cadw'n dda, cysgod rhag glaw, arddangos gwybodaeth am wasanaethau)

## Mae trigolion eisiau strydoedd gwell

Mae yna lawer o ffyrdd o wneud ein strydoedd a'n cymdogaethau'n ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfforddus i bawb gerdded neu olwyno ynddynt.

**Pa ganran o drigolion sy'n credu y byddai'r newidiadau hyn yn eu helpu i gerdded neu olwyno mwy?**

**73%**
palmentydd lletach
**65%** yn 2023

**71%**
croesfannau ffyrdd yn amlach, gyda llai o amseroedd aros
**70%** yn 2023

**78%**
mannau brafiach ar hyd strydoedd i stopio a gorffwys, fel mwy o feinciau, coed a llochesi
**73%** yn 2023

**75%**
hygyrchedd gwell i'r palmant, fel arwynebau gwastad a chyrbau isel mewn mannau croesi
**72%** yn 2023

**70%**
llai o geir wedi'u parcio ar y palmant
**68%** yn 2023

**72%**
llai o ofn troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal
**70%** yn 2023





## Abbas Radaideh

Ers symud i fyw i Gaerdydd, rydw i wedi penderfynu crwydro o amgylch Caerdydd ar droed ac rydw i wedi ei gael yn brofiad heb ei ail, gan gyfuno hanes, trefniadaeth fodern a mannau gwyrdd.

Gan eich bod yng nghanol Caerdydd, rydych chi bob amser yn teimlo bod mwy i'w weld, ac rydych chi'n darganfod hyn wrth gerdded o amgylch canol y ddinas a'i holl ardaloedd.

Fodd bynnag, nid yw pob taith gerdded yng Nghaerdydd yn teimlo'n llyfn. Mae ffyrdd gorlawn yn aml yn her i'w croesi.

Mae angen mwy o waith i drefnu'r ddinas o hyd, fel sut mae traffig yn symud o amgylch canol y ddinas, ehangu palmentydd, darparu gwahanol fathau o seddi.

Er mwyn i bobl barhau i gael y gorau o ymweld â Chaerdydd, ei phrofi a'i mwynhau, mae angen i ni annog cerdded fel ei fod yn parhau i fod yn weithgaredd pwysig i'n hiechyd a'n hamgylchedd.



**Atebion beicio**


# Beth fyddai'n gwneud beicio'n well?

## Mae llawer o drigolion eisiau beicio

Mae awydd sylweddol gan drigolion nad ydynt yn beicio i ddechrau beicio.

Er mwyn bodloni'r galw hwn rhaid inni fynd i'r afael â diogelwch, gan sicrhau bod gan bobl le penodol ar gyfer beicio, yn ogystal â chefnogi mynediad at feic, hyfforddiant, parcio beiciau, ac integreiddio beicio â thrafnidiaeth gyhoeddus yn well.

### Sut mae trigolion yn gweld eu hunain o ran beicio?



Ddim yn beicio a ddim eisiau: **37%**
**36%** yn 2023

Beicio'n rheolaidd: **11%**
**13%** yn 2023

Beicio'n achlysurol: **20%**
**19%** yn 2023

Newydd neu'n dychwelyd i feicio: **4%**
**6%** yn 2023

Ddim yn beicio ond bydden nhw'n hoffi gwneud: **28%**
**26%** yn 2023

### Pa gyfran o drigolion a ddywedodd 'nad ydyn nhw'n beicio ond bydden nhw'n hoffi gwneud'

**28%** o fenywod
**30%** yn 2023

**38%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
**39%** yn 2023

**26%** o bobl anabl
**24%** yn 2023

## Mae trigolion eisiau mwy o gefnogaeth i feicio

### Pa ganran o drigolion sy'n credu y byddai'r mathau hyn o gefnogaeth yn eu helpu i ddechrau beicio neu i feicio mwy?

**56%** mynediad at feic
**49%** yn 2023

**45%** mynediad at feic trydan
**40%** yn 2023

**35%** mynediad at feic cargo gyda lle i gario plant neu siopa
**33%** yn 2023

**27%** mynediad at feic wedi'i addasu, fel beic tair olwyn neu feic llaw
**22%** yn 2023

**51%** mynediad neu welliannau i gynllun llogi beiciau yn y ddinas
**47%** yn 2023

**60%** mynediad at barcio beiciau diogel yn y cartref neu gerllaw
**53%** yn 2023

**40%** cyrsiau hyfforddi beicio a reidiau cymdeithasol wedi'u trefnu
**39%** yn 2023

### Cyfrannau o drigolion sydd â mynediad at feic i oedolion

**55%** o'r holl drigolion
**57%** yn 2023

**39%** o grŵp economaidd-gymdeithasol DE
**38%** yn 2023

**62%** o grŵp economaidd-gymdeithasol AB
**67%** yn 2023

## Mae trigolion eisiau seilwaith beicio gwell

Mae pobl eisiau rhwydweithiau o lwybrau beicio pwrpasol a diogel, parcio beiciau ac integreiddio gwell â thrafnidiaeth gyhoeddus.

# Mae 17% o gartrefi

o fewn 125 metr i lwybrau beicio di-draffig i ffwrdd o'r ffordd, llwybrau beicio sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr, neu lwybrau ag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach

**16%** yn 2023

**Yn y ddinas mae:**

**37 milltir** o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth y ffordd
**37** milltir yn 2023

**9 milltir** o lwybrau beicio wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
**7** milltir yn 2023

**1 filltir** o lwybrau wedi'u harwyddo ar hyd strydoedd tawelach
**1** filltir yn 2023

**344** o leoedd parcio beiciau ar draws 22 o orsafoedd rheilffordd a bysiau
**290** o leoedd ar draws 21 o orsafoedd yn 2023

**Pa ganran o drigolion fyddai'n cael eu helpu i ddechrau beicio neu i feicio mwy pe byddai gwell cyfleusterau?**

**70%** mwy o lwybrau beicio di-draffig oddi wrth ffyrdd, fel trwy barciau neu ar hyd dyfrffyrdd
**70%** yn 2023

**64%** mwy o lwybrau beicio ar hyd ffyrdd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
**62%** yn 2023

**67%** mwy o lwybrau beicio lleol wedi'u harwyddo ar hyd strydoedd tawelach
**61%** yn 2023

**70%** cysylltiadau gwell â thrafnidiaeth gyhoeddus, fel parcio beiciau diogel mewn gorsafoedd trên, arosfannau/gorsafoedd bysiau
**69%** yn 2023

**Ymhlith trigolion:**

**78%** yn cefnogi gwella a chynyddu llwybrau cerdded, olwyno a beicio oddi ar y ffordd yn lleol

**59%** yn cefnogi adeiladu mwy o lwybrau beicio wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr, hyd yn oed pan fyddai hyn yn golygu llai o le i draffig ffyrdd arall
**55%** yn 2023

**74%** yn cefnogi gwella mynediad i'r rhai sy'n cerdded, olwyno a beicio i arosfannau bysiau a gorsafoedd coetsis neu drenau



## Robin Ritter-Jones

Mae blaenoriaeth beicwyr a cherddwyr yn rhy isel o amgylch goleuadau traffig.

Mewn rhai cyffyrdd yng nghanol y ddinas, gallwch fod yn aros am fwy na thri munud am olau gwyrdd.

Pan ddaw'r golau, mae'n eithaf byr ac yn teimlo'n frysiog.

Os byddwch chi'n dal yr amseru'n anghywir, gall yr hyn a ddylai fod yn daith fer gael ei harafu trwy ddilyn y goleuadau, sy'n datgymell pobl.

Byddwn i'n awgrymu rhoi golau gwyrdd byr i feiciau ar ôl pob newid golau, gan leihau'r amser aros wrth y goleuadau.

Ar ôl bod i Copenhagen yn ddiweddar, fe sylwais i sut mae beicwyr yn cael blaenoriaeth llawer uwch a dydyn nhw byth yn aros dros funud wrth oleuadau.



## Atebion cymdogaeth

# Lleoedd ffyniannus, gyda phlant wrth eu calon

Dylai cymdogaethau flaenoriaethu anghenion a lles y bobl sy'n byw yno ac yn ymweld â nhw. Dylent gael eu cynllunio i gefnogi cymuned, meithrin cysylltiad cymdeithasol, a bod yn lleoedd lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol.

Mae dylunio cymdogaethau gyda phlant mewn golwg yn golygu eu bod yn gweithio'n well i bawb.

## Gwella'r daith i'r ysgol

Mae ysgolion yng nghanol llawer o gymdogaethau a dylent fod yn rhan o unrhyw gynllun i wella cymdogaethau.

Mae hyn yn golygu gweithio gydag ysgolion i annog cerdded, olwyno a beicio, ond hefyd gwella'r gymdogaeth o amgylch ysgolion i leihau traffig a gwella palmentydd, mannau croesi a darpariaeth beicio.

**50%** yn cefnogi

**26%** yn gwrthwynebu

cau strydoedd preswyl y tu allan i ysgolion i geir yn ystod amseroedd danfon a chasglu

Gelwir y rhain yn 'Strydoedd Ysgol'.

Mae gan

**22 o ysgolion**

yn y ddinas gynlluniau Strydoedd Ysgol

15 o ysgolion yn 2023

**67%** yn cefnogi

**15%** yn gwrthwynebu

lleihau terfynau cyflymder, gwella mannau croesi a chyflwyno llwybrau beicio wedi'u gwarchod mewn cymdogaethau ysgolion



## Rhoi'r annibyniaeth i blant grwydro, chwarae a datblygu

Dylai cymdogaethau fod yn lleoedd i blant ffynnu. Gall cymdogaethau sydd wedi'u cynllunio'n dda roi rhyddid i blant symud o gwmpas, chwarae a chymdeithasu, gan helpu annibyniaeth, sgiliau cymdeithasol ac ymreolaeth plant.

**Oedran cyfartalog pan fyddai rhieni a gofalwyr yn gadael i blant deithio'n annibynnol yn eu cymdogaeth**

**11 oed** i gerdded neu olwyno

**12 oed** i feicio

**13 oed** i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

**48%**

yn cytuno bod lle i blant gymdeithasu a chwarae

**49%** yn 2023

Mae llai o blant yn chwarae allan ar eu strydoedd nag erioed o'r blaen. Dim ond **27%** o blant a ddywedodd eu bod yn chwarae'n rheolaidd y tu allan i'w cartrefi, o'i gymharu â **71%** o'r rhai a anwyd rhwng 1946 a 1964.

Arolwg ymgyrch Haf o Chwarae Achub y Plant, 2022.



## Mae trigolion yn cefnogi cymdogaethau diogel i blant

Mae oedolion yn cefnogi cymdogaethau diogel i blant, gan gynnwys targedau lleihau traffig a mesurau i leihau traffig drwodd a chyflymder traffig, ond rhaid gwneud hyn yn deg.

**27%**
o drigolion yn credu nad yw cerbydau modur sy'n symud neu wedi'u parcio yn goruchafu ar eu strydoedd
**30%** yn 2023

**53%**
yn cefnogi gosod targedau lleihau traffig a chymryd camau i gyflawni'r rhain
**56%** yn 2023

**62%**
yn cefnogi cymdogaethau traffig isel
**55%** yn 2023

**20%**
o gyfanswm hyd y ffyrdd diddosbarth yn y ddinas heb unrhyw fesurau i atal traffig drwodd. Gall hyn arwain at lwybrau tarw.[i]
**23%** yn 2023

**Byddai trigolion yn gweld llai o gerbydau modur ar eu strydoedd yn ddefnyddiol i:**

**64%** cerdded neu olwyno mwy

**58%** beicio mwy

**45%**
yn cefnogi lleihau terfynau cyflymder ar ffyrdd lleol mewn ardaloedd adeiledig i derfynau cyflymder 20 mya
(36% yn gwrthwynebu)

**90%**
o strydoedd y ddinas gyda therfynau cyflymder o 20 mya (ac eithrio traffyrdd)
**46%** yn 2023

**Byddai trigolion yn gweld mwy o strydoedd â therfynau cyflymder o 20 mya yn ddefnyddiol i:**

**42%** cerdded neu olwyno mwy

**42%** beicio mwy

## Dylai pawb deimlo'n gartrefol yn eu cymdogaeth

Rhaid i welliannau i gymdogaethau hefyd gydnabod anghenion oedolion, er enghraifft menywod, pobl anabl a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

**47%**
yn cytuno eu bod nhw'n sgwrsio'n rheolaidd â'u cymdogion, mwy na dim ond i ddweud helo
**50%** yn 2023

**43%**
yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gwneud eu cymdogaeth yn lle gwell i fyw
**41%** yn 2023

**Cyfran y trigolion sy'n teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn cerdded, yn olwyno neu'n treulio amser ar strydoedd eu cymdogaeth**

**74%**
**o'r holl drigolion**
**69%** yn 2023

**71%** o fenywod
**68%** yn 2023

**77%** o ddynion
**71%** yn 2023

**68%** o bobl LHDTC+
**56%** yn 2023

**76%** o bobl nad ydynt yn LHDTC+
**73%** yn 2023

**68%** o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
**65%** yn 2023

**75%** o bobl wyn
**70%** yn 2023

**63%** o bobl anabl
**64%** yn 2023

**77%** o bobl nad ydynt yn anabl
**71%** yn 2023

**65%** o grŵp economaidd-gymdeithasol DE
**58%** yn 2023

**79%** o grŵp economaidd-gymdeithasol AB
**74%** yn 2023

i. Yn seiliedig ar ddadansoddiad gan **www.lowtrafficneighbourhoods.org**. Ffyrdd diddosbarth yw pob ffordd gyhoeddus nad yw'n draffordd, yn ffordd A, B na C.



Datblygu'r ddinas

# Gwella cerdded, olwyno a beicio

## Mae Caerdydd yn dod yn ddinas lle mae cerdded, olwyno a beicio yn ddiogel, yn gyfleus ac yn ddeniadol ar gyfer teithiau bob dydd.

Fel dinas sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n wynebu pwysau brys i leihau tagfeydd a gwella ansawdd aer, mae teithio llesol yn rhan allweddol o weledigaeth y ddinas ar gyfer cymunedau iachach, gwyrddach a mwy cysylltiedig.

Mae datblygiadau mawr yng nghanol y ddinas yn helpu i ailddychmygu sut mae trigolion ac ymwelwyr yn symud o gwmpas. Mae Cyfnewidfa Fysiau newydd Caerdydd wedi agor gyda chyfleusterau cyfoes, hygyrch a chysylltiadau di-dor â'r orsaf reilffordd gyfagos a'r llwybrau cerdded, olwyno a beicio cyfagos. Mae llwybr beicio cylchol canol y ddinas yn cysylltu cyrchfannau allweddol gan gynnwys gorsaf reilffordd Heol y Frenhines, lleoliadau siopa a hamdden, ac Cwr y Gamlas arobryn (gweler gyferbyn), gan hefyd gysylltu â llwybrau beicio sy'n ymestyn allan ar draws y ddinas.

Mae buddsoddi mewn cymdogaethau yr un mor bwysig, gyda ffocws penodol ar ysgolion. Mae gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Ysgol Teithio Llesol bellach, ac mae mwy nag ugain yn elwa o Stryd Ysgol (gweler gyferbyn).

> **Mae uwchraddio seilwaith ar lwybrau ysgol allweddol yn helpu i wneud teithio llesol yn fwy diogel ac yn fwy deniadol.**

Mae ysgolion hefyd yn cael eu cefnogi gan fysiau cerdded a beicio, storfa feiciau ddiogel, a fflydoedd beiciau ysgol.

Mae uwchraddio seilwaith ar lwybrau ysgol allweddol yn helpu i wneud teithio llesol yn fwy diogel ac yn fwy deniadol, o lonydd beicio gwrthlif yn Nhreganna i groesfannau wedi'u huwchraddio yng Nghaerau ac Adamsdown. Yng Ngwaelod y Garth, mae llwybr coetir newydd bellach yn darparu llwybr diogel a golygfaol i'r ysgol.



## Cwr y Gamlas

Cynllun adfywio canol dinas uchelgeisiol yw Ardal y Gamlas, wedi'i adeiladu o amgylch effaith drawsnewidiol ailagor Camlas Bwydo'r Doc, a fu wedi'i chuddio am fwy na 70 mlynedd. Trodd Cam 1, a gwblhawyd yn 2024, hen ofod ffordd yn ardal gyhoeddus gyda gerddi glaw, seddi awyr agored, a gofod perfformio ar ffurf amffitheatr. Enillodd y prosiect wobr cynaliadwyedd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, gan gydnabod ei ansawdd a'i arloesedd.

Mae'r ardal newydd i gerddwyr yn cysylltu â phalmentydd ehangach, croesfannau mwy diogel, a llwybrau beicio newydd sy'n arwain at Orsaf Heol y Frenhines, gan annog pobl i gerdded, olwyno a beicio. Mae eisoes yn denu busnesau lletygarwch newydd ac yn creu lleoedd bywiog i drigolion gyfarfod a chymysgu. Mae dyfrgi hyd yn oed wedi cael ei weld yn nofio ar hyd y gamlas, sydd yn arwydd trawiadol o adfywiad ecolegol.



## Stryd Ysgol Rhodfa Lawrenny

Rhodfa Lawrenny yw'r Stryd Ysgol hiraf yng Nghymru, sy'n gwasanaethu Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Pwll Coch. Mae'n cyfuno mesurau awdurdodau lleol, mentrau ysgolion, a chefnogaeth gymunedol i greu enghraifft flaenllaw o deithio llesol diogel sy'n canolbwyntio ar blant. Mae'r stryd yn cau i bobl nad ydynt yn breswylwyr yn ystod cyfnodau danfon a chasglu, gyda chroesfannau pâl a sebra newydd, baeau bysiau, a chyffyrdd mwy diogel wedi'u gosod gerllaw.

Trefnir bws cerdded dyddiol o ardal barcio ddynodedig gan Ysgol Pwll Coch, ac mae bws beicio rheolaidd dan arweiniad rhieni yn galluogi plant i feicio'n ddiogel.

Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi gwella tagfeydd, diogelwch ffyrdd ac ansawdd aer o amgylch gatiau'r ysgol, ac wedi annog arferion teithio llesol gydol oes.



Edrych ymlaen

# Mannau a strydoedd gwell i bawb

Mae uchelgais Caerdydd i fod yn ddinas iachach, wyrddach a mwy cysylltiedig yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd maent wedi ymrwymo i dorri allyriadau carbon, lleihau tagfeydd, a gwella ansawdd aer, gyda theithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn ganolog i'r weledigaeth honno.

Mae buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus am drawsnewid sut mae pobl yn symud o gwmpas y ddinas. Mae cam cyntaf Metro De Cymru bron â chael ei gwblhau, a chyn bo hir bydd gwasanaethau tram-trên rheolaidd newydd yn cysylltu Caerdydd â chymunedau yng Nghymoedd De Cymru – gan gynyddu capasiti a chefnogi mwy o ymwelwyr a chymudwyr i deithio'n llesol ar ôl cyrraedd.

Bydd prosiectau sydd ar y gorwel yn cryfhau hyn ymhellach, gan gynnwys llinell dram newydd ar y stryd sy'n cysylltu gorsafoedd Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd, ailddatblygu'r Orsaf Ganolog, a gwelliannau i'r parth cyhoeddus cyfagos i wella cysylltiadau cerdded, olwyno a beicio yng nghanol y ddinas.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn darparu gorsaf newydd yn y dwyrain ac yn datgloi capasiti yn y gorllewin trwy uwchraddio cyffordd, gan ehangu mynediad at deithio cynaliadwy i fwy o gymunedau yng Nghaerdydd.

Ochr yn ochr â hyn, bydd Caerdydd yn parhau i gyflwyno seilwaith teithio llesol newydd. Mae cynllun rhannu beiciau newydd ledled y ddinas – cwbl drydanol a dwbl maint y fflyd flaenorol – yn cael ei gaffael ar hyn o bryd a bydd yn chwarae rhan bwysig mewn ehangu mynediad at feicio.

**Canran y trigolion a hoffai weld mwy o wariant gan y llywodraeth yn eu hardal leol:**

**53%** ar gerdded ac olwyno

**46%** ar feicio

**68%** ar fysiau

**64%** ar drenau

**43%** ar dramiau

**42%** ar fathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus fel trafnidiaeth gymunedol, metro neu danddaearol, fferi leol

**32%** ar yrru

> **Bydd Caerdydd yn parhau i gyflwyno seilwaith teithio llesol newydd.**

Mae sguboriau beiciau diogel yn cael eu cyflwyno i ymwelwyr yng nghanol y ddinas a thrigolion ar strydoedd eu cymdogaethau. Mae'r rhaglen beicffyrdd hefyd ar fin ehangu, gyda Heol Casnewydd a Heol Lydan ymhlith y coridorau nesaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer llwybrau wedi'u neilltuo o ansawdd uchel.

Bydd ysgolion yn parhau i fod yn ffocws craidd, gan gydnabod buddion ymgorffori arferion teithio llesol yn gynnar a'r angen i leihau pwysau traffig wrth gatiau'r ysgol. Bydd Strydoedd Ysgol, bysiau beicio, hyfforddiant, a buddsoddiad mewn llwybrau diogel yn parhau i dyfu, gan helpu i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghaerdydd y cyfle i deithio'n llesol ac yn annibynnol.

Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau a'r blaenoriaethau hyn yn awgrymu parhad i'r newid a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf – adeiladu system drafnidiaeth sy'n llai dibynnol ar geir, yn fwy cynhwysol, ac yn addas ar gyfer dinas sy'n tyfu, yn ffynnu, ac yn edrych tua'r dyfodol.



## Anna Harris

**Mae Caerdydd yn ddinas o faint da ar gyfer cerdded o le i le ac mae'n teimlo'n ddiogel ar y cyfan, er fy mod i'n teimlo'n llai diogel ar ôl iddi nosi.**

Rwy'n ceisio cerdded bob dydd gan ei fod yn ymarfer corff da ac yn ffordd braf o deimlo'n gysylltiedig â phobl sy'n byw o'm cwmpas a'm cymuned.

Weithiau, hoffwn pe bai mwy o ymdrech yn cael ei wneud i wneud ein mannau cyhoeddus a'r strydoedd o amgylch Caerdydd ychydig yn fwy diddorol, ychydig yn fwy prydferth, gyda chelf gyhoeddus a murluniau.

Mae'n braf gweld pethau hardd a lliwgar wrth i chi gerdded o gwmpas lle, yn hytrach nag adeiladau llwyd a choncrit.

Mae'n golygu bod lle yn datblygu hunaniaeth unigryw, a gall pobl ddal gafael ar hynny a theimlo'n falch o'r lle maen nhw'n ei alw'n gartref.

## Nodiadau ar fethodoleg

Cynhaliwyd yr arolwg agweddau rhwng Mawrth a Mehefin 2025 (a 2023) gan y sefydliad ymchwil cymdeithasol annibynnol NatCen.

Mae'r arolwg yn gynrychioliadol o holl drigolion Caerdydd, nid dim ond y rhai sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio.

Daw'r holl ddata arall oddi wrth ein partneriaid rhanbarthol a lleol, setiau data cenedlaethol neu cawsant eu modelu a'u cyfrifo gan Walk Wheel Cycle Trust. Roedd yr holl ddata a gafwyd yn lleol yn gywir ar 28 Mai 2025.

Mae amcangyfrifon teithiau'n defnyddio model a ddatblygwyd gan Walk Wheel Cycle Trust. Wrth gymharu ag arolygon teithio eraill, gall fod rhywfaint o amrywiad yng nghyfran y teithiau a deithiwyd yn ôl pwrpas y siwrne.

Mae amcangyfrifon teithiau bellach yn cynnwys teithiau beicio fel rhan o'r gwaith ar gyfer 2025 a 2023. Mae amcangyfrifon model 2023 a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi'u hailgyfrifo i gynnwys y rhain a chaniatáu cymhariaeth uniongyrchol.

Defnyddiwyd talgrynnu drwy gydol yr adroddiad. Mewn llawer o achosion rydym wedi talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Osgoir talgrynnu lle gallai hyn achosi dryswch, er enghraifft gydag amcangyfrifon wedi'u modelu a ddangosir yn yr adrannau crynodeb a buddion.

Mae rhagor o wybodaeth am ffynonellau data a chyfrifiadau, gan gynnwys cryfderau a chyfyngiadau'r arolwg a'r fethodoleg modelu, ar gael yma **www.walkwheelcycletrust.org.uk/cy/y-mynegai-cerdded-a-beicio**

Walk Wheel Cycle Trust yw'r elusen sy'n ei gwneud hi'n bosibl i bawb gerdded, olwyno a beicio.

Oherwydd mae symudiad sy'n cael ei bweru gan bobl yn newid popeth. Ein hiechyd. Ein lles. Ein byd.

**www.walkwheelcycletrust.org.uk**

## Cyllid a chefnogaeth

Mae Mynegai Cerdded a Beicio Caerdydd wedi'i ariannu a'i gefnogi gan Sefydliad Freshfield a Chyngor Caerdydd. Cydlynir y prosiect gan Walk Wheel Cycle Trust.

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).

© Walk Wheel Cycle Trust Mawrth 2026

© Lluniau: Matthew Horwood, oni bai am benlun tudalen 2: Andrew Jeffery; tudalen 7: Jennifer Allen; tudalen 9: Caroline Richards; tudalen 17: Robin Ritter-Jones; tudalen 23: Anna Harris.